# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Ionawr 2021

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 40)

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru - Llywodraeth Cymru

Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Llywodraeth Cymru

Jean White, Prif Swyddog Nyrsio - Llywodraeth Cymru

Briff ymchwil

## Egwyl (10:30-10:45)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru

(10.45-11.45) (Tudalennau 41 - 73)

Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dr Giri Shankar, Arweinydd Proffesiynol Diogelu Iechyd a Chyfarwyddwr Digwyddiad ar gyfer yr ymateb i COVID-19 – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dr Robin Howe, Prif Arweinydd Proffesiynol ym maes Microbioleg – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Papur 1: Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.45)

## 5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(11:45 – 12:05)

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: Trafod yr adroddiad drafft

(12:05-12.20) (Tudalennau 74 - 127)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

# TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG IECHYD CYHOEDDUS CYMRU AR COVID-19

## Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Sesiwn Pwyllgor - 27 Ionawr 2021

# Sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru
# Dydd Mercher 27 Ionawr 2021

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 5
2. Yr Epidemioleg Gyfredol (ers Gwyliau'r Nadolig/ y Flwyddyn Newydd) ........ 5
   - 2.1 Y sefyllfa fyd-eang ........ 5
   - 2.2 Y sefyllfa yn y DU ........ 5
   - 2.3 Y niferoedd yng Nghymru ........ 6
   - 2.4 Yr epidemioleg yng Nghymru ........ 6
   - 2.5 Amrywiolynnau ........ 8
   - 2.6 Achosion lluosog a brigiadau ........ 9
   - 2.7 Marwolaethau ........ 9
3. Diweddariad ers Egwyl y Nadolig / y Flwyddyn Newydd ........ 10
   - 3.1 Y Sefyllfa Bresennol yng Nghymru ........ 10
   - 3.2 Ymateb Sefydliadol: Cefndir ........ 11
   - 3.3 Ymateb Sefydliadol: Diweddariad ........ 12
   - 3.4 Pontio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ........ 14
   - 3.5 Cyfathrebu ........ 15
4 COVID-19 a Brechiadau Rhag y Ffliw ........ 16
   - 4.1 Rhaglen frechu COVID-19 ........ 16
   - 4.2 Brechiad rhag y ffliw ........ 20
5 Profi ........ 21
   - 5.1 Cefndir ........ 21
   - 5.2 Profi Torfol ........ 22
   - 5. Capasiti Profi ........ 23
   - 5.4 Gweithgaredd PCR ........ 26
   - 5.5 Labordai nad ydynt yn rhai GIG Cymru ........ 28
   - 5.6 Profion gwrthgyrff ........ 30
   - 5.7 Dyfeisiau Llif Unffordd ........ 30
6 Iechyd y Boblogaeth ........ 32

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynir y dystiolaeth ysgrifenedig hon i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon cyn sesiwn dystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhelir ddydd Mercher 27 Ionawr 2021. Dyma fydd y pedwerydd tro i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor ar y pandemig COVID-19.

Mae papurau tystiolaeth blaenorol wedi amlinellu sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru a'r system ehangach yn ystod ein hymateb i'r pandemig coronafeirws. Rydym wedi arwain y system drwy ddarparu cyngor, gwybodaeth, deallusrwydd a chefnogaeth arbenigol ym maes iechyd y cyhoedd.

Yn unol â chais y Pwyllgor, mae'r papur tystiolaeth hwn yn canolbwyntio ar:

- y sefyllfa bresennol ers gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd
- brechiadau COVID-19 a brechiadau rhag y ffliw
- profion torfol.

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ddiweddaru'r Pwyllgor yn fwy cyffredinol ar y pandemig a'n rôl. Dylid nodi bod cynnwys y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyflwyno (21 Ionawr 2021). Fodd bynnag, o gofio bod y pandemig yn newid yn gyflym, mae'n debygol iawn y bydd angen darparu rhagor o wybodaeth fwy diweddar ar lafar yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

Hoffem unwaith eto achub ar y cyfle i ddiolch yn ffurfiol i'n staff am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb parhaus yn ystod y pandemig; maent wedi bod yn wirioneddol ryfeddol.

# 2. Yr Epidemioleg Gyfredol (ers Gwyliau'r Nadolig/ y Flwyddyn Newydd)

## 2.1 Y sefyllfa fyd-eang

Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar wledydd ledled y byd. Am 09.49 o'r gloch CET ar 19 Ionawr 2021, roedd 93,956,883 o achosion wedi'u cadarnhau a 2,029,084 o farwolaethau ledled y byd[1].

## 2.2 Y sefyllfa yn y DU

Ym mhedair gwlad y DU, cyrhaeddodd y don gyntaf ei huchafbwynt ddechrau mis Ebrill 2020. Ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud, lleihaodd

[1] https://covid19.who.int/?gclid=EAIaIQobChMIvbTOyqyX7gIVwZ7tCh2S_gOBEAAYASAAEgIv8_D_BwE

nifer yr achosion a nifer y marwolaethau o ganol mis Ebrill ymlaen. O ganol mis Gorffennaf ymlaen, dechreuodd achosion yn y DU godi yn gyffredinol ar gyfradd gynyddol. Gwelwyd cwymp yn yr achosion dyddiol yn y DU yn ystod mis Tachwedd 2020, ac yna gynnydd cyflym unwaith eto o ddiwedd mis Tachwedd 2020 ymlaen. Adroddwyd bod cyfanswm o 3,433,494 o bobl wedi cael canlyniad prawf positif ledled y DU hyd at 16.43 o'r gloch ar 18 Ionawr 2021 (Ffynhonnell: dangosfwrdd COVID Llywodraeth y DU). Nifer y bobl sydd, yn anffodus, wedi marw yn y DU o fewn 28 diwrnod ar ôl cael prawf positif ar gyfer COVID-19 yw 89,860 (fel yr adroddwyd ar 18 Ionawr 2021)[2].

### 2.3 Y niferoedd yng Nghymru

Am 09.00 o'r gloch ar 18 Ionawr 2020, roedd cyfanswm o 182,599 o achosion wedi'u cadarnhau a 4,302 o bobl wedi marw o COVID-19 yng Nghymru[3].

### 2.4 Yr epidemioleg yng Nghymru

Yn gyffredinol, gostyngodd nifer yr achosion cenedlaethol a gadarnhawyd yng Nghymru yn ystod yr wythnos fwyaf diweddar yn dilyn cynnydd yn wythnos 53 (yr wythnos yn dechrau 28 Rhagfyr 2020). Gwelwyd gostyngiadau yn nifer yr achosion a gadarnhawyd yn y rhan fwyaf o ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ystod wythnos 01 (yr wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021), gostyngodd nifer yr achosion yn y mwyafrif o grwpiau oedran ac eithrio'r rhai 85 oed a hŷn, a gwelwyd y nifer fwyaf o achosion yn y grŵp oedran hwn. Roedd y niferoedd a gafodd eu derbyn i'r ysbyty gydag achos wedi'i gadarnhau o COVID-19 a nifer yr achosion wedi'u cadarnhau ymysg cleifion mewnol yn sefydlog yn ystod wythnos 01 (yr wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021) o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Fodd bynnag, gostyngodd y derbyniadau gofal critigol o gymharu â'r wythnos flaenorol.

Am 09.00 o'r gloch ar 18 Ionawr 2021, roedd cyfanswm cronnus o 182,599 o achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 ymhlith trigolion Cymru, ac mae hyn yn cynnwys profion gan labordai nad ydynt yn labordai GIG Cymru. Oherwydd y broses barhaus o lanhau data yn dilyn cyfuno'r setiau data hyn, efallai y bydd nifer fach o achosion dyblyg wedi'u cynnwys yn y ffigur cronnus hwn.

O blith yr holl achosion a gadarnhawyd yng Nghymru, cafodd 27.6% eu profi a'u cadarnhau yn labordai GIG Cymru: roedd 7.2% o achosion yn gleifion mewnol a ddarparodd samplau tra roeddent yn yr ysbyty ac roedd 20.4% gan unigolion a brofwyd yn y gymuned (gan gynnwys gweithwyr allweddol a brofwyd drwy adrannau iechyd galwedigaethol ac unedau profi cymunedol, staff a phreswylwyr cartrefi gofal, lleoliadau caeedig eraill ac

[2] https://coronavirus.data.gov.uk/?_ga=2.195989608.51722093.1600253429-1160851531.1600253429

[3] https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

adrannau cleifion allanol mewn ysbytai). Roedd 72.4% arall yn unigolion lle y cynhaliwyd y profion gan labordai nad oeddent yn labordai'r GIG.

Mae'n bosibl nodi cyfran o'r unigolion sy'n cael canlyniadau positif drwy sgrinio yn dilyn brigiadau ac achosion lluosog mewn amrywiaeth o leoliadau, neu drwy well profion yn y gymuned gan unedau profi symudol. Ni chynhwysir unigolion a brofwyd fel rhan o'r sesiynau sgrinio torfol ym Merthyr Tudful oni bai eu bod wedi cael ail brawf yn un o labordai'r GIG. Yn ychwanegol at yr achosion symptomatig o COVID-19, gall rhai o'r profion positif fod yn ganlyniadau profion positif lefel isel lle y cafodd yr unigolyn ganlyniad negatif o fewn terfyn amser byr o oddeutu 2 i 3 diwrnod ar ôl y sampl wreiddiol; gellir dehongli'r rhain fel canlyniadau 'positif anghywir' os oedd yr unigolyn yn parhau i fod yn asymptomatig. Ar hyn o bryd nid yw'r rhain yn cael eu tynnu o setiau data cadw gwyliadwriaeth, er y gall y tebygolrwydd o ganlyniadau 'positif anghywir' leihau yn sgil cynnydd mewn gweithgaredd COVID-19.

Rhwng 1 Mawrth 2020 a 10 Ionawr 2021, cafodd cyfanswm o 11,714 o bobl eu derbyn i'r ysbyty gydag achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 (h.y. prawf positif o fewn 28 diwrnod cyn cael eu derbyn, neu lai na 2 ddiwrnod ar ôl eu derbyn). Derbyniwyd cyfanswm o 1,114 o bobl i ofal critigol. Erbyn 18 Ionawr 2021, roedd 1,789 o bobl ag achos wedi'i gadarnhau o COVID-19 mewn wardiau ysbyty (sefydlog o'i gymharu â'r wythnos flaenorol), gyda 95 ohonynt mewn ward gofal critigol.

Oedran cymedrig y cleifion gydag achos a gadarnhawyd o SARS-CoV2 mewn ysbytai yw 70 oed ac oedran cymedrig unigolion â SARS-CoV2 mewn lleoliadau eraill yw 40 oed. Gall hyn gynnwys profion sgrinio ar gyfer unigolion nad oes ganddynt symptomau.

Cyflwynwyd 'cyfnod atal byr' ledled Cymru a oedd yn cyfyngu ar deithio dianghenraid y tu allan i'r cartref o ddydd Gwener 23 Hydref 2020 tan ddydd Llun 9 Tachwedd 2020. Yn gyffredinol, gostyngodd nifer yr achosion yn dilyn yr ymyrraeth hon, ond ni chafodd ei gynnal a pharhawyd i weld cynnydd drwy gydol mis Tachwedd 2020. Cyflwynwyd cyfyngiadau ychwanegol ar 4 Rhagfyr a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob caffi, tafarn, bar a bwyty gau am 6pm. Yn ychwanegol at y gofyniad hwn, gwaharddwyd gwerthu alcohol unrhyw adeg o'r dydd. Caewyd sinemâu, aleau bowlio a lleoliadau adloniant dan do eraill hefyd.

Adolygwyd y mesurau hyn eto a symudodd Cymru i Lefel Rhybudd 4 ar 19 Rhagfyr 2020. Amlinellir cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac mae'r rhain yn ymgorffori'r cyfyngiadau a oedd ar waith o'r blaen hyd nes y symudwyd i Lefel 4. Yn ogystal, diwygiwyd y gyfraith yng Nghymru ynghylch pobl yn cymysgu dros gyfnod y Nadolig a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl gyfyngu eu hunain i swigod Nadolig o ddwy aelwyd, ynghyd ag un cartref person sengl ychwanegol ar gyfer dydd Nadolig yn unig.

## 2.5 Amrywiolynnau

Mae sawl amrywiolyn newydd o SARS-CoV2 wedi'u canfod yn y DU, a'r amlycaf yw'r Amrywiolyn Sy'n Peri Pryder (VOC) 202012/1, a darddodd o dde-ddwyrain Lloegr. Bellach mae tystiolaeth dda bod yr amrywiolyn hwn yn trosglwyddo'n haws na feirysau blaenorol, a bod ganddo gyfradd ymosodiad eilaidd uwch (30-50% yn uwch) a chyfradd twf uwch (cynnydd o 0.4 i 0.7 yn y rhif atgynhyrchu) ond nid oes tystiolaeth hyd yn hyn ei fod yn effeithio ar imiwnedd yn sgil brechlyn neu haint a gafwyd yn y gorffennol, neu bod risg sy'n gysylltiedig ag oedran. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg y gallai fod yn gysylltiedig â chymhareb uwch o achosion i farwolaethau, ond mae ymchwiliadau'n parhau i hyn.

Wrth i wybodaeth am yr amrywiolyn hwn ddod i'r amlwg, gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru waith ymgysylltu helaeth gyda Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y GIG, Prif Weithredwyr awdurdodau lleol ac uwch gydweithwyr yn yr heddlu (cadeiryddion y Grŵp Cydlynu Strategol) ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Digwyddodd yr ymgysylltu hwn ochr yn ochr â gwaith cyfathrebu allanol sylweddol, y cyfan wedi'i anelu at rannu'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am yr amrywiolyn newydd.

Ar 18 Ionawr 2021, roedd 838 o achosion wedi'u cadarnhau o'r amrywiolyn hwn wedi'u nodi drwy ddull dilyniannu genomau cyfan ym mhob rhan o Gymru, ac mae gwaith monitro dangosydd procsi ar gyfer yr amrywiolyn wedi dangos cynnydd cyflym yng nghanran yr achosion sy'n VOC202012/1. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau yn Lloegr a'r Alban. Ar 15 Ionawr 2021, mae'r amrywiolyn hwn yn cyfrif am bron i 80% o'r achosion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, tua 50% ym Myrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg, a thua 30% ym Myrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru chwilio'n ddyfal am yr amrywiolyn newydd fel rhan o'i ddadansoddiad. Mae'r tîm yn Uned Genomeg Pathogen Iechyd Cyhoeddus Cymru (PenGU) yn cefnogi'r gwaith o reoli'r feirws mewn amser real ac mae'r tîm wedi cyfrannu'n sylweddol at y ddealltwriaeth o ddilyniant genomig COVID-19 ar lefel Fyd-eang. Mae'n werth nodi, mewn perthynas â dilyniannu genomig, bod 26,041 o samplau o Gymru wedi'u dilyniannu a'u cyflwyno i Gonsortiwm y DU ar Genomeg COVID-19 (COG-UK) hyd yma. Daeth tua 23,500 o'r rheini o Iechyd Cyhoeddus Cymru a thua 2,500 o waith dilyniannu COG-UK/Labordai Goleudy. Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 14.2% o'r holl achosion o Gymru hyd yma. Mae Lloegr wedi dilyniannu tua 5.3% o'r holl achosion ac mae'r Alban wedi dilyniannu oddeutu 8.9%. Yn ogystal â hynny, hyd yma mae 19,676 o ddilyniannau genomau SARS-Cov-2 Cymru wedi'u rhannu'n gyhoeddus, sy'n cynrychioli 10.7% o'r holl achosion yng Nghymru. Dim ond Awstralia a Denmarc sydd wedi dilyniannu a rhannu cyfran fwy o achosion na Chymru ledled y byd.

Canfuwyd amrywiolynnau eraill yng Nghymru gan gynnwys VOC202012/2, a ganfuwyd gyntaf yn Ne Affrica, sy'n cynnwys newidiadau i'r feirws a allai

effeithio ar imiwnedd yn sgil haint blaenorol neu yn sgil brechu. Mae mesurau rheoli diweddar wedi cael eu rhoi ar waith yn y DU i ganfod a chynnwys yr amrywiolyn hwn - mae'n ofynnol i'r rhai sy'n dychwelyd o wledydd ag amrywiolynnau hunanynysu ynghyd â'u haelwydydd, a chânt eu profi ar ôl iddynt ddychwelyd er mwyn adnabod achosion a fewnforiwyd. Mae'r ymchwiliadau i'r effeithiau ar imiwnedd yn parhau.

Rydym yn darparu cyngor Diogelu Iechyd parhaus a helaeth i Lywodraeth Cymru a phartneriaid, mewn perthynas â goblygiadau posibl yr amrywiolynnau.

## 2.6 Achosion lluosog a brigiadau

Cofnodwyd 168 o achosion anadlol newydd yn System Genedlaethol Rheoli Achosion Unigol ac Achosion Lluosog Tarian yn wythnos 01 2021 (wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021). Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Fodd bynnag, mae'n is na'r uchafbwynt yn wythnos 51 o 2020. O'r 168 o achosion anadlol, roedd 109 mewn cartrefi preswyl, 8 mewn ysgolion neu feithrinfeydd, 12 mewn ysbytai a 39 mewn lleoliadau eraill.

Am 09.00 o'r gloch ar 11 Ionawr 2021, mae data dros dro yn dangos bod 1,735 o achosion anadlol/COVID-19 mewn cartrefi preswyl/gofal wedi cael eu hadrodd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ers 1 Mawrth 2020 a bod gan 60% ohonynt un neu fwy o achosion wedi'u cadarnhau o SARS-COV2 yn gysylltiedig â'r achos lluosog yn Tarian. Mae nifer fawr o achosion lluosog yn parhau i gael eu cofnodi o gartrefi preswyl.

Mae polisi Llywodraeth Cymru a gweithredu strategaethau profi yn lleol wedi newid dros amser, i adlewyrchu cwrs y pandemig, a gallai hyn effeithio ar niferoedd a thueddiadau achosion unigol ac achosion lluosog a gadarnhawyd. Nid yw achosion lluosog lleol nas cofnodwyd ar Tarian wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion lluosog a'r llwyth gwaith o ganlyniad wedi golygu ei bod yn debygol y bydd achosion lluosog a brigiadau wedi cael eu tangofnodi ar y system hon.

## 2.7 Marwolaethau

Ar 18 Ionawr 2021, yn anffodus adroddwyd 4,302 o farwolaethau ymysg achosion a gadarnhawyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy system cadw gwyliadwriaeth gyflym ar farwolaethau mewn ysbytai a chartrefi gofal.

Oedran cymedrig yr achosion angheuol a adroddwyd drwy'r system cadw gwyliadwriaeth gyflym ar farwolaethau hyd at 13 Ionawr 2021 oedd 79.2 oed (CH 95% 78.9 - 79.6). Mae nifer wythnosol y marwolaethau a adroddwyd drwy'r system cadw gwyliadwriaeth gyflym ar farwolaethau wedi gostwng yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, ond mae'n parhau i fod yn uwch na'r uchafbwynt a welwyd yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Ebrill 2020.

Yn ôl data tystysgrif marwolaethau dros dro a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 309 o farwolaethau COVID-19 ymhlith preswylwyr Cymru gyda COVID-19 wedi'i grybwyll ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 01 Ionawr 2021. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, ond mae'n is na'r uchafbwynt o 412 yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 24 Ebrill 2020. O'r marwolaethau a gofrestrwyd yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 1 Ionawr 2021, adroddir bod 248 wedi digwydd yn yr ysbyty, 42 mewn cartrefi gofal, 16 yn y cartref a 3 mewn lleoliad arall. Mae nifer y marwolaethau o bob achos wedi cynyddu uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd o'i gymharu â'r un wythnos ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth gan gynnwys y data diweddaraf sydd ar gael gan ddefnyddio'r ddolen proses cadw gwyliadwriaeth gyflym COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection> *(ar gael i'r cyhoedd).*

***Noder bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n ddyddiol. O ganlyniad, gall y ffigurau fod yn wahanol i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn.**

Mae dangosfwrdd cadw gwyliadwriaeth cyflym COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae'r dangosfwrdd yn darparu manylion achosion newydd, profion, cofnodi marwolaethau'n gyflym, adroddiadau awdurdodau lleol, achosion yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA), adroddiadau ar ddangosyddion symptomau o'r maes gofal sylfaenol, a gwybodaeth am achosion COVID-19 a ddechreuodd yn yr ysbyty. Yn fwy diweddar, ychwanegwyd y nifer sy'n manteisio ar frechiadau COVID-19 a data cadw gwyliadwriaeth ysgolion.

# 3. Diweddariad ers Egwyl y Nadolig / y Flwyddyn Newydd

## 3.1 Y Sefyllfa Bresennol yng Nghymru

Ar 14 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru* a oedd yn cydnabod rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth helpu i asesu lefel y risg ar gyfer gwahanol rannau o Gymru mewn perthynas â'r pandemig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragor o gyfyngiadau ar 4 ac 11 Rhagfyr 2020 a chyflwynwyd cyfnod arall o gyfyngiadau cenedlaethol (cyfyngiadau lefel 4) ar 20 Rhagfyr 2020.

Ar 4 Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y dylai ysgolion, colegau ac ysgolion annibynnol symud i ddysgu ar-lein, ac ymgorfforwyd hyn wedyn ar 8 Ionawr 2021 yn y broses adolygu 21 diwrnod ar gyfer cyfyngiadau (y dyddiad adolygu nesaf fydd 29 Ionawr 2021).

Dechreuodd rhaglen frechu COVID-19 ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020 yng Nghymru ac ar draws y DU gan ddefnyddio brechlyn COVID-19 BioNTech

Pfizer. Defnyddiwyd brechlyn AstraZeneca Rhydychen gyntaf yn y rhaglen yng Nghymru ddydd Llun 4 Ionawr 2021.

Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn ac mae'n parhau i wneud hynny.

Yn ystod yr ychydig wythnosau cychwynnol uniongyrchol ar ôl symud i gyflwyno cyfyngiadau Lefel 4 yng Nghymru, bu gostyngiad amlwg yn nifer yr unigolion a brofwyd yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod dehongli'r dangosyddion allweddol fel yr achosion treigl 7 diwrnod a chanran y profion positif yn fwy o her. Fodd bynnag, roedd tuedd amlwg ar i fyny yn y cyfraddau mewn awdurdodau lleol yn y rhan ddwyreiniol o Ogledd Cymru. Mae'r data sy'n dod i'r amlwg yn yr wythnos gyfredol yn awgrymu bod nifer yr achosion yn gostwng ond mae'r cyfraddau'n dal yn uchel iawn o gymharu â mis Hydref 2020 (cyn y cyfnod atal byr).

Mae'r amrywiolyn sy'n peri pryder (VOC) yn y DU a'r rhai a gyflwynwyd o dramor yn ddatblygiad newydd allweddol y mae angen cadw golwg fanwl arnynt a'u monitro'n fanwl iawn. Mae effeithiau'r VOCs hyn yn dal i ddod i'r amlwg a cheir arwyddion cynnar bod cyfrannau cynyddol o VOC1 ar led ac mai dyma yw'r prif straen sy'n cylchredeg yng Nghymru. Mae'r cyfraddau yn uwch yng Ngogledd Cymru o gymharu â De Cymru. Hyd yn hyn, nid oes tystiolaeth o gynnydd mewn ail-heintio gyda VOCs.

Mae cyflwyno brechiad COVID yn ddatblygiad pwysig arall yn ystod y mis diwethaf. Rhagwelir y bydd brechu cyfrannau mawr o'n poblogaeth sydd yn y grwpiau blaenoriaeth cymwys yn gyflym yn lleihau marwolaethau o COVID. Fodd bynnag, gydag amrywiolynnau yn dod i'r amlwg, bydd angen cadw golwg ar effeithiolrwydd brechlynnau ar yr amrywiolynnau hynny. Nid yw'n hysbys eto a yw'r brechlyn yn atal trosglwyddo'r feirws rhwng unigolion sydd wedi'u brechu a phobl a allai gael y clefyd. Felly, bydd angen cynnal y mesurau rheoli cyfredol gan gynnwys yr Ymyriadau Anfferyllol (NPIs) am fisoedd lawer.

### 3.2 Ymateb Sefydliadol: Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cefnogi *Strategaeth Diogelu Profi Olrhain* Llywodraeth Cymru ers iddi gael ei chyhoeddi ym mis Mai 2020. Disgrifir rôl a chyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y Strategaeth fel:

*'Darparu arweinyddiaeth a chyngor arbenigol ar ddulliau iechyd y cyhoedd. Bydd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o olrhain cysylltiadau, cynghori ar samplo a phrofi, dadansoddi profion mewn labordy, gwyliadwriaeth iechyd a darparu cyngor diogelu iechyd a dadansoddiad arbenigol o ledaeniad y feirws yn ein cymunedau drwy ystod o ddangosyddion gwyliadwriaeth iechyd'.*

Mae papurau tystiolaeth blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wedi disgrifio sut rydym wedi darparu ystod o wasanaethau, cynhyrchion a chyngor mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Ad-drefnu a newid ffocws ein sefydliad i ddod yn weithlu sy'n canolbwyntio ar ymateb i COVID-19. Mae saith ymgynghorydd wedi camu o'u rolau arferol i ddod yn arbenigwyr clefyd sengl mewn ymateb i COVID-19 ym maes diogelu'r cyhoedd, gan weithio ochr yn ochr â'r staff arferol. Yn ogystal, rydym wedi defnyddio a hyfforddi dros 600 o staff yn ystod y 12 mis diwethaf i gefnogi ein hymateb. Ar hyn o bryd mae gennym 100 o staff sy'n gweithio fel rhan o'r Ganolfan Gyswllt Genedlaethol ac Uned Ymateb Genedlaethol yr Adran Diogelu Iechyd. Rydym wedi ailstrwythuro patrymau gwaith y tîm ymateb yn yr adran diogelu iechyd, er mwyn sicrhau ymateb mwy cadarn a chynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys gwneud addasiadau i fodel y Ganolfan Gyswllt Genedlaethol.
- Sefydlu unedau swyddogaethol i reoli gofynion penodol ac uniongyrchol yn gysylltiedig â'r ymateb.

Fe wnaethom gyhoeddi Fframwaith Gweithredu Profi Olrhain Diogelu diwygiedig i bartneriaid ar 9 Rhagfyr 2020. Roedd hyn yn rhoi eglurder ychwanegol ynghylch rolau a chyfrifoldebau priodol Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrff partner ar lefelau rhanbarthol a lleol. Mae hyn wedi rhoi eglurder i'r system a bydd ei weithredu yn lleddfu'r pwysau ar staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, y mae pob un ohonynt yn parhau i ddarparu cymorth arbenigol i'r system yn wyneb y cynnydd dyddiol yn y galw ledled y wlad.

### 3.3 Ymateb Sefydliadol: Diweddariad

Yn gynnar ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gweithredol Cam 3 ar gyfer y sefydliad. Mae natur eithriadol ein hymateb i COVID-19 wedi ei gwneud yn ofynnol i ni asesu'n sylfaenol y modd y cyflawnir y cynlluniau y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Mae wedi ein herio i ystyried nid yn unig y camau uniongyrchol y mae'n rhaid i ni eu cymryd i ymateb i'r pandemig cyfredol, ond hefyd y goblygiadau iechyd cyhoeddus uniongyrchol ac anuniongyrchol tymor hwy i Gymru. Bu'n rhaid i ni ystyried ysgogwyr strategol allweddol eraill a fydd yn effeithio ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru, megis ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar ddiwedd 2020. Wrth wneud hynny, cawsom ein harwain gan ein strategaeth hirdymor: *Gweithio i Gyflawni Dyfodol Iachach i Gymru,* a'r gwaith a ddechreuwyd gennym cyn y pandemig i gytuno ar nifer fach o ganlyniadau iechyd cyhoeddus allweddol i ysgogi gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol.

Mae ein Cynllun Gweithredol yn canolbwyntio ar gynnal ein blaenoriaeth o ran yr ymateb diogelu iechyd parhaus, gan ymgymryd â gweithgaredd iechyd cyhoeddus allweddol sydd wedi'i ddiffinio'n glir mewn nifer fach o

feysydd. Mae'r gallu i ymateb i unrhyw ymchwydd posibl hefyd wedi'i ymgorffori yn y cynllun hwn. Felly gall y gwaith o gyflawni ein meysydd blaenoriaeth eraill newid, wrth i ni barhau i ddiwallu anghenion yr ymateb parhaus drwy wahanol gyfnodau'r pandemig mewn ffordd dynamig. Mae'r Cynllun Gweithredol yn cwmpasu cyfnod o 18 mis.

Ar 13 Ionawr 2021, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithredu ar y lefel ymateb 'uwch' fel y nodir yn ein Cynllun Ymateb Brys. Mae adroddiadau cynnydd rheolaidd ar weithrediad y Cynllun yn cael eu hadolygu gan Grŵp Aur Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, mae Bwrdd a Phwyllgorau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithredu o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn unol ag Egwyddorion Llywodraethu Cymru Gyfan, gyda rhai amrywiadau cymeradwy i'r Rheolau Sefydlog. O fis Mawrth 2020 ymlaen, mae'r Bwrdd wedi gweithredu o bell ac wedi cael rhith-gyfarfodydd, a hynny'n amlach na'r arfer. Ailddechreuodd y Bwrdd ffrydio ei gyfarfodydd yn fyw ym mis Gorffennaf 2020.

Mae natur hirfaith y pandemig a'r ffaith bod y clefyd yn parhau i ddatblygu ledled Cymru, a lefel y ddibyniaeth gan y system ehangach ar ein hadnodd diogelu iechyd, wedi ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio nifer sylweddol o'n staff yn raddol o bob cyfarwyddiaeth, swyddogaeth a gweithgaredd ac mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar lesiant ein staff. Mae hyn yn effeithio ar ein gallu i ddarparu (ailgychwyn) gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 a rhai dyletswyddau statudol yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Rydym wedi cynnal dadansoddiad manwl o weithgareddau a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 er mwyn nodi pa rai y gallwn barhau â nhw ar ôl cyflawni ein prif flaenoriaeth, sef sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gynnal ein hymateb diogelu iechyd (gan gynnwys cadw gwyliadwriaeth ar y boblogaeth) ar gyfer Cymru.

O ystyried yr angen parhaus i flaenoriaethu'r ymateb diogelu iechyd, mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ailgychwyn nifer cyfyngedig o'n gwasanaethau a'n swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd cyhoeddus ond nad ydynt yn ymwneud â COVID-19.

Cafodd pum gwasanaeth sgrinio eu hatal dros dro ym mis Mawrth 2020, fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor. Roedd modd i ni barhau â thair rhaglen sgrinio genedlaethol a hoffem dalu teyrnged i'r holl staff sy'n gysylltiedig â hynny. Rydym wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas ag ailgychwyn y rhaglenni hyn, a dyma yw'r unig wasanaeth gwarchodedig yr ydym wedi gallu ei ailddechrau'n llawn. O ystyried trosglwyddiad presennol COVID-19, a'r pwysau dealladwy ar wasanaethau'r GIG, rydym yn cynnal adolygiadau parhad busnes wythnosol mewn perthynas â darparu pob un o'r rhaglenni hyn yn barhaus. Ein hymrwymiad yw parhau i ddarparu pob rhaglen. Fodd bynnag, mae gennym gynllun parhad busnes ar waith i fynd i'r afael â'r risg y gallai fod angen atal un neu fwy o'r rhaglenni hyn o ganlyniad i bwysau

ehangach ar y GIG. Byddwn yn parhau i fonitro hyn gyda Llywodraeth Cymru, a'r GIG ehangach.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ymgysylltu'n eang â Gweinidogion a swyddogion mewn perthynas â phob agwedd ar COVID-19.

Ymysg rhai enghreifftiau o'r cymorth a roddwyd i Lywodraeth Cymru mae:

- Cyngor arbenigol ar gyfnodau penodol y pandemig, imiwneiddiadau, rheoli ac atal heintiau a chyfarpar diogelu personol, gan gynnwys canllawiau atodol i weithwyr proffesiynol gofal iechyd a gofal cymdeithasol, samplu a phrofi, gwyliadwriaeth ac ymyriadau iechyd cyhoeddus cenedlaethol a lleol
- Cyngor i hysbysu ac ystyried y gwersi rhyngwladol a ddysgwyd o COVID-19 a'r niwed anuniongyrchol ehangach sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth a'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ledled Cymru.

Drwy gydol y pandemig, fel rhan o'n rôl diogelu iechyd statudol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu cyngor a chymorth arbenigol i amrywiaeth eang o bartneriaid a strwythurau ymateb, gan gynnwys GIG Cymru, awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, y system Cyfiawnder Troseddol, addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol.

## 3.4 Pontio o'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Yn ystod mis Rhagfyr 2020, yn unol â phroses Fframweithiau Cyffredin y DU, bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar gamau olaf datblygu Fframwaith Anneddfwriaethol ar gyfer y pedair Gwlad ar gyfer Diogelu Iechyd/Diogelwch Iechyd (yn dilyn Adolygiad gan Swyddfa'r Cabinet a Phanel asesu). Cytunodd y Gweinidogion y dylai'r drafft terfynol o'r Fframwaith Anneddfwriaethol symud ymlaen i'r Cyd-bwyllgor Gweinidogol graffu arno a'i gymeradwyo. Mae Concordat cysylltiedig wedi'i ddrafftio hefyd. Bydd y Concordat yn destun proses graffu lawn yn gynnar yn 2021. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gadeirio Grŵp Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad (sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r pedair llywodraeth ddatganoledig ac asiantaethau iechyd cyhoeddus), sy'n cyflawni'r gwaith hwn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu arweinyddiaeth system ar gyfer yr agweddau 'diogelwch iechyd' ar Bontio o'r UE yng Nghymru.

Daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, y cytunwyd arno ar 24 Rhagfyr 2020, i rym ar 1 Ionawr 2021.

Mewn perthynas â Diogelwch Iechyd, mae'r cytundeb:

- Yn cefnogi trefniadau effeithiol a rhannu gwybodaeth rhwng y DU a'r UE os bydd bygythiad trawsffiniol difrifol i iechyd, sy'n arbennig o bwysig yng nghyd-destun COVID-19. Mae'r cytundeb yn galluogi'r DU i ofyn am fynediad i System Rhybuddio ac Ymateb Brys yr UE mewn

perthynas â bygythiad iechyd trawsffiniol difrifol fel y gall y DU, sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau'r UE gyfnewid gwybodaeth a chydlynu mesurau i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

- Yn gwneud darpariaeth i'r UE wahodd y DU i gymryd rhan ym Mhwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE i gefnogi cyfnewid gwybodaeth a hwyluso cydgysylltu mewn perthynas â bygythiadau trawsffiniol difrifol penodol i iechyd. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydweithredu ar faterion gwyddonol a thechnegol rhwng y DU a Chanolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC), gan gynnwys drwy lunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth tebyg i'r rhai sydd gan yr ECDC â thrydydd gwledydd eraill fel Canada

Gwnaed cais ar unwaith am fynediad parhaus i System Rhybuddio ac Ymateb Brys yr Undeb Ewropeaidd (EWRS) ar gyfer COVID-19 o 1 Ionawr 2021.

Bydd gwaith craffu pellach yn cael ei wneud ar fanylion y Cytundeb mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys diogelwch iechyd) yn ystod mis Ionawr 2021.

### 3.5 Cyfathrebu

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgymryd â gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu helaeth o ddechrau'r pandemig ac mae'n parhau i wneud hynny. Rydym wedi cynghori ar ddealltwriaeth o ymddygiad a gwerthuso ymddygiad ac wedi lledaenu gwybodaeth allweddol yn rhagweithiol i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru drwy rwydweithiau rhanddeiliaid, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau traddodiadol.

Ar yr un pryd, mae Tîm Cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o arwain a chydlynu'r cyfathrebu i gefnogi'r brigiadau a'r clystyrau a ddaeth i'r amlwg ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio yn ystod haf 2020. Rydym wedi cyflawni'r gwaith hwn yn unol â *Chynllun Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan* ac wedi cynnal gweithdai ar draws pedair Uned Cyfryngau'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i sicrhau bod gan bob un o'r ardaloedd *Profi Olrhain Diogelu* ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau yng nghyd-destun rheoli brigiadau. Fel rhan o hyn rydym wedi hwyluso mwy o allu ar lefelau rhanbarthol gan alluogi timau lleol i arwain ar gyfathrebu yn ymwneud â brigiadau lleol.

Er mis Medi 2020, rydym wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gynllunio a chyflawni cynlluniau cyfathrebu i gefnogi cyflwyno'r Brechiad COVID-19. Amcanion cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer hyn yw:

- annog grwpiau cymwys i fanteisio ar y brechlyn COVID-19 ar yr adeg iawn
- cynyddu hyder y cyhoedd yn niogelwch brechlynnau COVID-19 drwy helpu rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddeall y wyddoniaeth

- darparu negeseuon, gwybodaeth ac offer amserol, perthnasol a chywir i staff iechyd a gofal cymdeithasol y gellir eu defnyddio mewn sianeli lleol i gefnogi cyflwyno'r brechlyn.
- egluro'r rôl y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei chwarae wrth gefnogi cyflwyno'r brechlyn.

Ym mis Rhagfyr 2020, er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r brechiad COVID-19 lansiwyd microwefan bwrpasol i'r cyhoedd ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn darparu gwybodaeth gyfoes am y brechlyn.

Yn ystod 2021, bydd y gwaith cyfathrebu risg yn canolbwyntio ar gefnogi'r ymateb diogelu iechyd i'r coronafeirws drwy:

- gymhwyso gwyddoniaeth ymddygiadol a gwerthusiad o ymddygiad i helpu i lunio'r negeseuon ar gyfer pob agwedd ar gyfathrebu risg
- gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu a darparu deunydd cyfathrebu amserol ac effeithiol i gefnogi pobl i fanteisio ar y brechlyn
- parhau i ddarparu ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n annog ymlyniad wrth ymyriadau iechyd cyhoeddus, gan helpu'r cyhoedd i ddeall eu rôl o ran diogelu eu hunain ac eraill rhag y feirws
- parhau i ddarparu arweinyddiaeth ar gyfathrebu i'r Tîm Rheoli Digwyddiadau cenedlaethol
- cynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad i'r eithaf drwy ddefnyddio ystod o sianeli, gan gynnwys sianeli digidol a thrwy ein rhwydwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyrraedd ystod eang o grwpiau a chymunedau.

Fe wnaethom sefydlu gwefan bwrpasol ar COVID-19, sydd wedi'i chynllunio i gyfleu negeseuon cyhoeddus cyfoes, yn ogystal â chanllawiau i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym mis Ebrill 2020, lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgyrch llesiant i helpu i liniaru effeithiau negyddol COVID-19 ar bobl yng Nghymru. Datblygwyd ein hymgyrch *'Sut Wyt Ti?'* gydag arbenigedd ein huned gwyddor ymddygiad ac fe'i cynlluniwyd i ddarparu cymorth a chyngor ar sail tystiolaeth i fynd i'r afael â llesiant meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Cynhaliwyd yr ymgyrch hon eto am gyfnod o chwe wythnos o ddechrau'r cyfnod atal byr yng Nghymru (Hydref 2020) gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl.

# 4 COVID-19 a Brechiadau Rhag y Ffliw

## 4.1 Rhaglen frechu COVID-19

Mae'r ymateb hirdymor i'r pandemig COVID-19 yn ei gwneud yn ofynnol i frechlyn diogel ac effeithiol fod ar gael i bawb sydd ei angen. Gwnaed cynnydd cyflym gydag ymchwil i nifer fawr o frechlynnau COVID-19 posibl a pharatoadau ar gyfer eu gweithgynhyrchu. Mae dros 200 o frechlynnau

COVID-19 posibl yn erbyn y feirws SARS-CoV-2 wedi eu creu hyd yma, ac mae treialon clinigol wedi dechrau ar 5 ohonynt. Mae Cymru wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hon, gan ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer rhan o dreial cam III brechlyn COVID-19 AstraZenaca Rhydychen sydd wedi'i leoli yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod wedi prynu saith brechlyn gwahanol ymlaen llaw, gan ddefnyddio pedair technoleg brechlyn COVID-19 wahanol, sef cyfanswm o dros 350 miliwn o ddosau. Y brechlynnau cynnar sy'n cael eu defnyddio bellach yw brechlynnau BioNTech Pfizer a AstraZeneca Rhydychen. Mae'r DU wedi archebu 40 miliwn o ddosau o frechlyn Pfizer, a 100 miliwn o ddosau o frechlyn AstraZeneca, gyda Chymru yn cael cyfran o 5%.

Mewn treialon gwelwyd bod brechlynnau Pfizer ac AstraZeneca oddeutu 90% a 70% yn effeithlon yn y drefn honno ar ôl un dos tymor byr ac yn cynnig effeithlonrwydd hirdymor o 95% a 70% ar ôl dau ddos o ran atal clefyd COVID-19 symptomatig, gan gynnwys ymysg unigolion hŷn, ond ni ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol oherwydd gwahaniaethau rhwng y treialon. Mae data'n awgrymu bod y ddau frechlyn yn atal bron pob achos o glefyd difrifol ymysg y rhai nad ydynt wedi'u diogelu'n llawn rhag haint. Nid ydym yn gwybod a oes unrhyw frechlyn sy'n atal yr haint neu'n atal trosglwyddiad asymptomatig, felly ni allwn ar hyn o bryd lacio'r mesurau rheoli presennol ar gyfer unigolion neu ardaloedd.

Awdurdododd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) frechlyn BioNTech Pfizer ar gyfer COVID-19 yn seiliedig ar dystiolaeth o ddiogelwch ac effeithiolrwydd ar 2 Rhagfyr ar gyfer dau ddos o leiaf 3 wythnos ar wahân ac awdurdododd frechlyn COVID-19 AstraZeneca ar gyfer dau ddos 4-12 wythnos ar wahân ar 30 Rhagfyr 2020.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn rhan o arwain y gwaith cynllunio cenedlaethol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru ers mis Mai 2020. Mae'r gwaith cynllunio wedi bod yn eithriadol o heriol i'r GIG yng Nghymru oherwydd natur y data sy'n dod i'r amlwg ar nodweddion y brechlyn a'r ddealltwriaeth sy'n datblygu o ba unigolion sydd fwyaf mewn perygl o gael achos difrifol o'r haint COVID-19.

Lansiwyd rhaglen frechu COVID-19 ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020 yng Nghymru ac ar draws y DU gan ddefnyddio brechlyn COVID-19 BioNTech Pfizer, y brechlyn COVID-19 cyntaf i gael ei awdurdodi gan reoleiddiwr yn seiliedig ar ddata effeithiolrwydd a diogelwch treial cam III llawn unrhyw le yn y byd. Mae brechlyn AstraZeneca Rhydychen wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio hefyd erbyn hyn ac mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn y rhaglen o ddydd Llun 4 Ionawr 2021. Roedd dros 175,816 o unigolion wedi cael un dos o'r brechlyn erbyn 19 Ionawr 2021.

Mae'r rhaglen frechu yn rhaglen uchelgeisiol ar raddfa fawr, gyda'r nod yn y pen draw o gynnig brechlyn COVID-19 i bob person 16 oed a hŷn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i frechu pob grŵp blaenoriaeth erbyn y Gwanwyn, a grwpiau blaenoriaeth 1 i 4, sef pobl 70 oed a hŷn, erbyn canol mis Chwefror.

Mae un dos o'r ddau frechlyn yn rhoi lefelau uchel iawn o ddiogelwch tymor byr, gyda brechlyn Pfizer yn cynnig cyfradd effeithlonrwydd o 89% a brechlyn AstraZeneca yn cynnig cyfradd effeithlonrwydd o 73%, 2-3 wythnos ar ôl y dos cyntaf. Felly, mae Prif Swyddogion Meddygol y DU yn argymell y dylid rhoi'r ail ddos o'r ddau frechlyn hyd at 12 wythnos ar ôl y cyntaf, yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JVCI). Bydd hyn yn caniatáu i lawer mwy o bobl gael eu diogelu gan y dos cyntaf, a bydd yn atal miloedd yn fwy o farwolaethau. Caiff y defnydd o'r brechlynnau ei flaenoriaethu yn unol â chyngor y JCVI a nodir yn y 'Llyfr Gwyrdd' (tabl isod).

Tabl: Grwpiau blaenoriaeth JCVI

| Priority group | Risk group |
|---|---|
| 1 | Residents in a care home for older adults<br>Staff working in care homes for older adults |
| 2 | All those 80 years of age and over<br>Frontline Health and social care workers |
| 3 | All those 75 years of age and over |
| 4 | All those 70 years of age and over<br>Clinically extremely vulnerable individuals (not including pregnant women and those under 16 years of age) |
| 5 | All those 65 years of age and over |
| 6 | Adults aged 16 to 65 years in an at-risk group (Table 3) |
| 7 | All those 60 years of age and over |
| 8 | All those 55 years of age and over |
| 9 | All those 50 years of age and over |

*Ffynhonnell: Llyfr Gwyrdd Pennod 14a, 31/12/2020*

Oherwydd y ffordd y mae'n rhaid trin brechlyn Pfizer, sef yr angen i'w storio ar dymheredd o -75C a'i gludo ar rew sych, mae ei ddefnyddio mewn lleoliadau cymunedol y tu allan i ganolfannau brechu torfol yn heriol. Gydag argaeledd brechlyn AstraZeneca sy'n fwy addas i'w ddefnyddio mewn gofal sylfaenol, bydd y rhaglen nawr yn gallu cyrraedd yr unigolion hŷn hynny sy'n 70 oed neu'n hŷn a'r rhai mewn grwpiau clinigol hynod fregus o dan 70 oed mewn lleoliadau gofal sylfaenol cymunedol, a chartrefi gofal, yn gyflym. Dyma'r unigolion yng ngrwpiau blaenoriaeth JCVI 1 i 4.

Yna bydd y rhaglen yn gweinyddu'r brechlyn fesul cam i lawr yr ystod oedran, ac yn cynnwys y rhai dan 70 oed a than 65 oed mewn grwpiau sydd mewn perygl, yna i lawr i'r rhai 50 oed a hŷn i gwblhau'r cam blaenoriaeth cyntaf gydag un dos o'r brechlyn mor gyflym â phosibl. Bydd ail ddosau yn cael eu hamserlennu fel mater o drefn ar ôl 11 wythnos.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cefnogi'r rhaglen drwy ddarparu arweinyddiaeth, arbenigedd a chyngor i fwrdd rhaglen a ffrydiau gwaith Llywodraeth Cymru, adnoddau gwybodaeth ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, cadw gwyliadwriaeth, hyfforddiant a Chyfarwyddyd Grŵp Cleifion drwy'r Rhaglen Clefydau y gellir eu Hatal drwy Frechlyn a'r Tîm Cyfathrebu sy'n darparu elfennau cyfathrebu, marchnata a chyhoeddiadau. Cynhyrchodd Gwasanaeth Tystiolaeth yr Arsyllfa adolygiadau cyflym o dystiolaeth ar raglenni brechu torfol hefyd. Mae cydweithwyr cyllid wedi cefnogi'r broses drwy waith cynllunio cyllidebau a chynllunio ariannol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi datblygu System Imiwneiddio Cymru i reoli gwahoddiadau a data gyda mewnbwn gennym ni.

Mae adroddiadau cadw gwyliadwriaeth ar y niferoedd sy'n manteisio ar y brechlyn, allbynnau rhaglenni a dangosfyrddau wedi cael eu datblygu a'u darparu gan Raglen Clefydau y Gellir eu Hatal Drwy Frechlyn Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy. Darperir adroddiadau sefyllfa dyddiol i arweinwyr rhaglenni, sy'n cynnwys canlyniadau diogelwch brechu. Bellach mae gwybodaeth cadw gwyliadwriaeth yn cael ei chyhoeddi bob wythnos (bob dydd Iau) fel tab ar ddangosfwrdd COVID-19 ICC https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mae microwefan hefyd wedi'i datblygu i rannu negeseuon allweddol gyda'r cyhoedd ac mae'n cynnwys ardal i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â brechu nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y GIG ac na allant gael mynediad at dudalen fewnrwyd y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal Drwy Frechlyn i gael adnoddau https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/

Mae tîm y rhaglen hon wedi cynhyrchu gwybodaeth gyhoeddus a phroffesiynol, adroddiadau cadw gwyliadwriaeth a dangosfyrddau, deunyddiau hyfforddi a chanllawiau, a dogfennau templed rheoliadol gan gynnwys Cyfarwyddiadau ar gyfer Grŵp Cleifion i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eu defnyddio mewn pryd ar gyfer lansio'r brechlyn.

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am weinyddu a logisteg brechu'r boblogaeth. Gyda rhaglen ar y fath raddfa, mae heriau gweithredol sylweddol o ran ehangu recriwtio a lleoliadau a bydd cynnwys y sector gofal sylfaenol bellach yn sicrhau cynnyd ddcyflym o ran y gallu i ddarparu'r brechlyn ledled Cymru.

O fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd staff rheng flaen yn y meysydd microbioleg, sgrinio a diogelu iechyd yn cael eu brechu yng ngrŵp blaenoriaeth 2 gan y bwrdd iechyd lleol y maent yn gweithio ynddo. Yn ogystal, o'r wythnos sy'n dechrau 18 Ionawr 2021, mae ein swyddogion brechu ein hunain wedi dechrau brechu ein staff rheng flaen. Nid yw ein

staff swyddfa yn dod o fewn grŵp blaenoriaeth 2 JCVI fel staff gofal iechyd rheng flaen, a byddant yn cael eu brechu yn ôl eu hoedran neu grŵp risg, neu os ydynt o dan 50 oed heb unrhyw gyflwr sy'n eu rhoi mewn perygl, gyda staff gwasanaethau hanfodol eraill ar ôl i'r brechlyn gael ei gyflwyno i grwpiau blaenoriaeth sydd mewn perygl.

### *4.1.1 Cadw gwyliadwriaeth ar raglen frechu COVID-19 yng Nghymru*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am gadw gwyliadwriaeth ar y nifer sy'n manteisio ar y brechiad COVID-19 a chaiff y gwaith hwn ei wneud gan dîm arbenigol sy'n gweithio yn y Rhaglen Clefydau y Gellir Eu Hatal Drwy Frechlyn a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy. Mae gwaith cadw gwyliadwriaeth arferol yn canolbwyntio ar y nifer sy'n manteisio ar y brechiad COVID-19 ym mhoblogaeth Cymru ac mae'n cynnwys ffigurau sy'n benodol i'r grwpiau blaenoriaeth a argymhellir. Bydd gwaith cadw gwyliadwriaeth arferol hefyd yn cwmpasu cadw gwyliadwriaeth ar degwch derbyn o ran y rhai sy'n manteisio ar y brechlyn yn ôl oedran, rhyw, daearyddiaeth a lefel amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Cyhoeddir ffigurau cenedlaethol yn ddyddiol drwy ddangosfwrdd cadw gwyliadwriaeth cyflym ar COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, gyda data ar gyfer grwpiau blaenoriaeth yn cael eu cynnwys wrth iddynt gael eu blaenoriaethu i'w brechu, a fydd o ddydd Iau 21 Ionawr yn cynnwys preswylwyr cartrefi gofal, staff cartrefi gofal, y rhai 80 oed a hŷn a gweithwyr gofal iechyd. Mae dadansoddiadau manylach ar lefel bwrdd iechyd ar gael i'r cyhoedd yn wythnosol ar y dangosfwrdd. Mae gwaith cadw gwyliadwriaeth arferol hefyd yn darparu gwybodaeth gyflym ar gyfer gweithredu i reolwyr a swyddogion brechu yn y GIG drwy gyfres o adroddiadau rhyngweithiol ar fewnrwyd GIG Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu nifer o weithgareddau cadw gwyliadwriaeth manylach yng Nghymru i amcangyfrif a monitro effeithiolrwydd brechlyn a thegwch o ran y rhai sy'n manteisio ar frechiadau, gan weithio'n agos â chydweithwyr yn y system Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae arbenigwyr ar heintiau anadlol a chadw gwyliadwriaeth ar frechlynnau, epidemioleg a feiroleg hefyd yn cyfrannu at astudiaethau ar lefel y DU ac Ewrop yn y meysydd hyn.

## 4.2 Brechiad rhag y ffliw

Yn 2020-21, mae Cymru wedi cyflawni'r gyfradd uchaf erioed o bobl sydd wedi cael y brechlyn rhag y ffliw, gyda thros filiwn o oedolion a phlant bellach wedi cael brechlyn rhag y ffliw y gaeaf hwn.

Y rhaglen brechu rhag y ffliw eleni yw'r fwyaf erioed. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru brynu dros 400,000 o frechlynnau ychwanegol rhag y ffliw gan ymestyn y cymhwysedd i bawb rhwng 50-64 oed o 1 Rhagfyr 2020.

Ymysg y rhai 65 oed a hŷn, y nifer sy'n cael y brechlyn rhag y ffliw yw 75.8%, o'i gymharu â 68.3% ar ddiwedd y tymor y llynedd, a 49% ymysg y rhai dan 65 oed sy'n wynebu risg glinigol - hefyd yn uwch nag ar ddiwedd tymor 2019-20. Mae nifer y plant 2 a 3 oed sydd wedi cael eu himiwneiddio rhag y ffliw hefyd wedi cynyddu o 42.6% i 54.9%, ac ymysg plant ysgol gynradd mae wedi cynyddu o 68.3% i 71% (mae hyn o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd).

Ar ddiwedd mis Tachwedd 2020, roedd cyfraddau brechu rhag y ffliw ymysg staff GIG Cymru sydd â chysylltiad uniongyrchol â phobl yn 60.8%, o'i gymharu â 50.5% yn yr un cyfnod yn y tymor blaenorol.

# 5 Profi

## 5.1 Cefndir

Ers dechrau'r pandemig, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn meithrin gallu ar gyfer cynnal profion COVID-19 yng Nghymru ac yn cefnogi'r gwaith o feithrin gallu ar gyfer canolfannau samplu (lle y cymerir y swab). Mae cwmpas gwaith samplu a phrofi Iechyd Cyhoeddus Cymru hyd yma wedi cynnwys:

- cefnogi byrddau iechyd i gynyddu'r capasiti samplu ar gyfer profion antigenau a gwrthgyrff ledled GIG Cymru i fodloni gofynion cynllun profi Llywodraeth Cymru
- cynyddu'r capasiti profi yn labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru a chael gafael ar gapasiti ychwanegol o bob rhan o'r DU
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd (rheoli canolfannau samplu) i greu proses atgyfeirio a chanlyniadau syml o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer Cymru
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a Phartneriaid Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i'w helpu i gynyddu eu capasiti samplu i'r eithaf mewn Unedau Profi Coronafeirws, Canolfannau Samplu'r Boblogaeth ac unedau profi symudol ac unrhyw gapasiti ychwanegol a allai fod yn ofynnol.

Bellach mae model cymysg ar gyfer samplu sy'n cynnwys Unedau Profi Coronafeirws, Canolfannau Samplu'r Boblogaeth, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'canolfannau profi drwy ffenestr y car' ac unedau profi symudol. Trosglwyddodd Unedau Profi Symudol o'r fyddin i ddarparwyr masnachol ddiwedd mis Awst 2020. Cefnogir yr holl unedau hyn gan ddarparwyr masnachol diffiniedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn Lloegr. Mae tair uned arall wedi'u lleoli gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i ymateb i achosion. Mae capasiti ychwanegol pellach ar gyfer samplu yn cael ei gynllunio gan Lywodraeth Cymru a DHSC.

## 5.2 Profi Torfol

Y flaenoriaeth gychwynnol ar gyfer profi oedd profi unigolion symptomatig er mwyn adnabod ac ynysu unigolion heintiedig ac olrhain ac ynysu eu cysylltiadau. Gyda'r ddealltwriaeth gyfredol o rôl haint asymptomatig, a'r angen i gydbwyso rheolaethau COVID-19 yn erbyn y potensial ar gyfer niwed nad yw'n gysylltiedig â COVID, mae sawl defnydd posibl ar gyfer Profi Torfol ar unigolion asymptomatig wedi dod i'r amlwg:

- Canfod Achosion
- Diogelu poblogaethau a/neu leoliadau bregus
- Cynnal gweithgaredd ar gyfer cysylltiadau.

### *5.2.1 Canfod Achosion*

Mae canfod achosion drwy sgrinio unigolion asymptomatig yn strategaeth glasurol wrth reoli brigiadau. Er enghraifft, fe'i defnyddir yn gyffredin mewn cartrefi gofal neu leoliadau ysbyty. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyngor yn lleol ar gyfer rheoli achosion lluosog o COVID-19, ond hefyd yn genedlaethol ynghylch y defnydd mwyaf effeithiol o strategaethau profi yng nghyd-destun iechyd y cyhoedd.

Yng nghyd-destun COVID-19, defnyddiwyd profi torfol/sgrinio unigolion asymptomatig ar wahanol lefelau gan gynnwys:

- Profi Tref/Ardal Gyfan: Ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020, cwblhawyd bron i 50,000 o brofion ym Merthyr Tudful a Chynon Isaf, gyda thua 50% o'r boblogaeth gymwys wedi'i phrofi. Arweiniodd hyn at 1,135 o achosion ychwanegol y gellid eu hynysu ac y gellid olrhain eu cysylltiadau.
- Profi Ysbytai neu Wardiau Cyfan: Defnyddir hyn i ymchwilio i gyfraddau uchel o achosion lluosog.
- Profi Cartrefi Gofal Cyfan: Ar hyn o bryd, defnyddir hyn os canfyddir achos newydd mewn cartref gofal.
- Profi Carchardai neu Adeiniau Carchardai: Defnyddiwyd hyn i gefnogi ymchwiliadau a rheoli cyfraddau uchel o achosion lluosog.
- Profi Gweithleoedd: Defnyddiwyd hyn lle y canfuwyd cyfraddau uchel o achosion lluosog uchel a allai fod wedi bod yn gysylltiedig â gweithleoedd.

Bydd y manteision iechyd cyhoeddus yn sgil sgrinio unigolion asymptomatig er mwyn canfod achosion, a thrwy hynny reoli achosion lluosog, yn dibynnu ar nifer yr heintiau yn y boblogaeth a ddewisir, a lefel y trosglwyddiad yn y boblogaeth. Strategaethau sy'n targedu poblogaethau sydd â chyfraddau uchel o'r haint a chyfraddau trosglwyddo uchel sy'n debygol o fod fwyaf llwyddiannus.

### *5.2.2 Diogelu poblogaethau a/neu leoliadau sy'n agored i niwed*

Mae lleoliadau caeedig fel cartrefi gofal, ysbytai a charchardai yn agored i'r perygl o ledaenu COVID-19. Yn ogystal, mae gan leoliadau fel cartrefi gofal ac Ysbytai unigolion sy'n arbennig o agored i effeithiau COVID-19.

Nod profion torfol rheolaidd ar staff sy'n gweithio mewn lleoliadau sy'n agored i niwed yw lleihau'r siawns y gallai aelod o staff sydd wedi'i heintio/heintus asymptomatig gyflwyno haint i'r lleoliad. Mae gwaith modelu yn awgrymu y gall profion adwaith cadwynol polymerasau (PCR) neu brofion ddwywaith yr wythnos gyda Dyfeisiau Llif Unffordd leihau'r risg o drosglwyddo'r haint 50%. Ar hyn o bryd, mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio mewn ysbytai, cartrefi gofal a charchardai yng Nghymru.

### *5.2.3 Cynnal gweithgaredd ar gyfer cysylltiadau*

Ar gyfartaledd, mae 10% o gysylltiadau yn datblygu COVID-19. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gysylltiadau unigolion sydd wedi'u heintio hunanynysu am 10 diwrnod. Er y dylai'r strategaeth hon atal cysylltiadau a allai fod wedi'u heintio/heintus rhag cymysgu ac, o bosibl, trosglwyddo haint, mae ganddi nifer o effeithiau negyddol posibl, sy'n cynnwys rhoi pwysau ar y gweithlu, rhoi pwysau ar yr economi, a phryder bod nifer fawr o blant yn colli addysgu wyneb yn wyneb.

Gall profion dyddiol am y 5-7 diwrnod ar ôl i rywun gael ei adnabod fel cysylltiad ganiatáu i gysylltiadau barhau i weithio neu i gael eu haddysg. Mae'r dull hwn yn cael ei dreialu mewn gweithleoedd yng Nghymru (e.e. TATA Steel, Heddlu De Cymru), ac mae'n cael ei werthuso i'w ddefnyddio yn y byd addysg.

## 5. Capasiti Profi

Ers dechrau'r pandemig, mae gwasanaeth microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adeiladu ar ei gyfrifoldebau o ran arwain y system ac, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi ceisio caffael platfformau ac adweithredyddion ar ran yr holl wasanaethau microbioleg feddygol yng Nghymru.  Gwnaed hyn i sicrhau bod gennym ddarpariaeth ddigonol ar draws y system yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion o ran capasiti profi drwy gydol y pandemig. Y bwriad fu cael platfformau canolog a all gynnal nifer fawr o brofion ar yr un pryd ac yna ddarparu capasiti lleol i gefnogi amseroedd cwblhau cyflymach ar gyfer canlyniadau drwy lwyfannau canolig a pheiriannau sy'n gallu profi am antigenau'n gyflym ledled Cymru.

Ym mis Mai 2020, cyflwynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru achos busnes i Lywodraeth Cymru i greu gofod labordy ychwanegol i gynnal profion Antigenau a Gwrthgyrff. Cymeradwywyd hyn ar ddechrau mis Mehefin 2020 ac aeth gwaith yn ei flaen gyda Chydwasanethau'r GIG gyda'r bwriad o sicrhau bod y safle ym Mharc Imperial 5 (IP5) yn weithredol o ddechrau mis Awst 2020. Yn dilyn hynny, ddiwedd mis Mehefin 2020, cysylltodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn Lloegr â Llywodraeth Cymru

i drefnu i leoli un o Labordai Goleudy'r DU yn Ne Cymru. Nodwyd IP5 fel safle posibl ac, yn dilyn ymweliadau gan y DHSC a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai'r Labordy Goleudy yn cael ei leoli ar safle arfaethedig Iechyd Cyhoeddus Cymru (Lab1).

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllid ar gyfer Lab 1 yn dal i fod ar gael i Iechyd Cyhoeddus Cymru greu ei labordy ei hun ar gyfer Cymru (Lab 2). Nodwyd ail labordy yn IP5 fel labordy ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daeth y labordy hwn yn weithredol ddechrau mis Rhagfyr 2020.

Ym mis Awst 2020, mewn ymateb i gais gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cyflwynwyd a chymeradwywyd achos busnes i gynyddu capasiti labordy ac amseroedd prosesu ledled Cymru. Nododd y cynnig y gofyniad am:

- staff a chyfarpar ychwanegol ar gyfer labordai rhanbarthol Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u lleoli yn labordai profi Ysbyty Athrofaol Cymru (Caerdydd), Ysbyty Treforys (Abertawe) ac Ysbyty Glan Clwyd (y Rhyl), fel y gallent weithredu 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos.
- creu chwe Labordy Gwib ychwanegol mewn ysbytai ledled Cymru, lle y gallai profion cyflym, o dan bedair awr, gael eu cynnal er mwyn rhyddhau staff i weithio ar brofion COVID-19. Byddai'r labordai hyn yn gweithredu rhwng 08.00 - 22.00 o'r gloch, saith diwrnod yr wythnos. Daeth y rhain yn weithredol ar 30 Tachwedd 2020.

Er mwyn galluogi'r rhain i gael eu staffio, crëwyd hyd at 170 o swyddi Cyfwerth ag Amser Cyflawn Recriwtiwyd ar sail ranbarthol er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl o ran apwyntiadau a staff i weithio rhwng y labordai gwib a'r labordai rhanbarthol a darparu gwytnwch ychwanegol ar gyfer profi yng Nghymru. Ymysg y manteision ychwanegol hefyd mae profi am ystod o bathogenau anadlol (gan gynnwys y ffliw).

Ar hyn o bryd, mae samplau o Ganolfannau Samplu'r Boblogaeth, Unedau Profi Symudol a'r mwyafrif o gartrefi gofal yn cael eu prosesu drwy Labordai Goleudy. Hyd yma, mae hyn wedi galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i ganolbwyntio ar gefnogi profion mewn ysbytai, Unedau Profi Coronafeirws (i brofi gweithwyr allweddol), ynghyd â chefnogi'r profion ar gyfer brigiadau mewn cartrefi gofal ac mewn cymunedau.

Mae hefyd angen ymgorffori gwytnwch yn y system i sicrhau bod Cymru yn parhau i gael mynediad at gapasiti samplu os oes unrhyw heriau annisgwyl gyda phrosesu yn y Labordai Goleudy. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach yr ateb cynaliadwy hwn i Gymru a fydd yn cyfuno capasiti profi Labordai Goleudy Cymru a'r DU yn y ffordd orau bosibl.


Y capasiti dyddiol cyfredol y gall labordai ei gyflawni yw dros 15,000. Mae hyn wedi cynyddu o ganlyniad i gyflwyno trefniadau gweithio 24 awr yn y labordai yn y Rhyl, Singleton a Chaerdydd, agor labordai gwib, a

gweithredu'r labordy IP-5 yng Nghasnewydd. Roedd profion gwrthgyrff wedi'u cynllunio'n wreiddiol hefyd o IP-5. Mae'r buddsoddiad ychwanegol wedi creu'r capasiti a amlinellir isod:

| Safle | Medi-20 | Hydref-20 | Tach-20 | Rhag-20 | Ion-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Labordy Ysbyty Maelor Wrecsam** | 327 | 327 | 306 | 318 | 326 |
| **Labordy Rhanbarthol Glan Clwyd** | 1009 | 1655 | 1634 | 1646 | 1654 |
| **Labordy Ysbyty Bangor** | 327 | 327 | 306 | 318 | 326 |
| **Labordy Ysbyty Bronglais** | 12 | 292 | 306 | 318 | 96 |
| **Labordy Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg** | 152 | 152 | 236 | 248 | 186 |
| **Labordy Ysbyty Glan Gwili** | 327 | 327 | 306 | 318 | 326 |
| **Ysbyty'r Tywysog Philip** | 0 | 0 | 26 | 38 | 46 |
| **Treforys** | 0 | 0 | 26 | 38 | 46 |
| **Labordy Rhanbarthol Ysbyty Singleton** | 564 | 887 | 866 | 878 | 886 |
| **Ysbyty Tywysoges Cymru** | 0 | 0 | 26 | 38 | 46 |
| **Ysbyty'r Tywysog Siarl** | 0 | 0 | 26 | 38 | 46 |
| **Ysbyty Brenhinol Morgannwg** | 292 | 292 | 306 | 318 | 414 |
| **Labordy Cenedlaethol Parc Magden** | 2170 | 2170 | 1430 | 1430 | 1900 |
| **Labordy Rhanbarthol Ysbyty Athrofaol Cymru** | 119 | 1619 | 1598 | 110 | 1618 |
| **IP5** | 0 | 0 | 0 | 7000 | 7000 |
| **Ysbyty Athrofaol Cymru** | 12 | 12 | 26 | 38 | 59 |
| **Labordy Ysbyty Brenhinol Gwent** | 47 | 47 | 49 | 61 | 59 |
| **Neville Hall** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Llanfrechfa Grange** | 0 | 768 | 794 | 806 | 319 |
| **Cyfanswm** | **5,358** | **8,875** | **8,267** | **13,959** | **15.353** |

## 5.4 Gweithgaredd PCR

Mae Ffigur 1 (isod) yn dangos nifer wythnosol y profion PCR a ddadansoddwyd yn labordai GIG Cymru a labordai nad ydynt yn rhai GIG Cymru yn y drefn honno. Dangosir y cyfanswm wythnosol yn ôl dyddiad yr awdurdodiad (cyntaf) ar gyfer y prawf.




*Ffigur 1*

### *5.4.1 Labordai GIG Cymru*

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y profion a awdurdodwyd yn labordai GIG Cymru rhwng 11 Ionawr a 17 Ionawr 2021.


| Safle samplu | Cyfanswm wythnosol |
|---|---|
| Labordy GIG Cymru - Cymuned - Profion eraill | 5547 |
| Labordy GIG Cymru - Cymuned; Sgrinio gweithiwr allweddol asymptomatig a sgrinio preswylwyr | 15111 |
| Labordy GIG Cymru - Ysbyty | 10561 |
| Labordy GIG Cymru - Arall | 858 |
| Cyfanswm | **32,077** |

Mae'r gweithgaredd cyffredinol yn weddol sefydlog. Fodd bynnag, ceir mwy o samplau sy'n gysylltiedig â sgrinio gweithwyr allweddol asymptomatig a sgrinio preswylwyr nag yn ddiweddar. Mae'r cynnydd hwn yn gysylltiedig i raddau helaeth â chynnydd mewn samplu yn rhanbarth Betsi Cadwaladr.

### *5.4.2 Labordai GIG Cymru: Amserau Prosesu Mewn Labordai*

Mae rhaglen wella barhaus ar y gweill i gefnogi gwell amseroedd prosesu mewn labordai. Mae hon yn rhaglen wella helaeth sy'n gofyn am wella logisteg a llif samplau i'r labordai ynghyd â gwella'r prosesau o fewn labordai. Y nod yw i fwy na 95% o samplau gael eu prosesu o fewn 12 awr neu lai.

Mae amser prosesu 'mewn labordy' yn cael ei gyfrif o'r adeg y derbynnir y sbesimen yn Labordy GIG Cymru a'i gofnodi ar System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru, i'r adeg yr awdurdodir y canlyniad gyntaf.




*Ffigur 2*


Edrychir ar hyn yn ôl llwybr samplu rhwng 11 Ionawr a 17 Ionawr 2021:

| **Lleoliad** | **Nifer y profion** | **24 awr** | **48 awr** | **72 awr** |
|---|---|---|---|---|
| Labordy GIG Cymru - Cymuned - Profion eraill | 5,547 | 81% | 98% | 99% |
| Labordy GIG Cymru - Cymuned; Sgrinio gweithiwr allweddol asymptomatig a sgrinio preswylwyr | 15,111 | 60% | 95% | 97% |
| Labordy GIG Cymru - Ysbyty | 10,561 | 91% | 100% | 100% |
| Labordy GIG Cymru - Arall | 858 | 74% | 91% | 94% |
| Cyfanswm | **32,077** | **74%** | **97%** | **98%** |

### *5.4.3 Labordai GIG Cymru: Amseroedd Prosesu: O'r Adeg Casglu i'r Awdurdodiad Cyntaf*

Cyfrifir yr amser prosesu 'O'r Adeg Casglu i'r Awdurdodiad Cyntaf' o'r adeg y cesglir y sampl gan unigolyn i'r adeg yr awdurdodir y canlyniad gyntaf yn y labordy. Mae'n cynrychioli'r broses o'r dechrau i'r diwedd.

Mae Ffigur 3 yn dangos canran y profion a awdurdodwyd o fewn 24, 48 a 72 awr ar ôl casglu sbesimenau fesul wythnos ar gyfer labordai GIG Cymru ar draws pob lleoliad samplu.




*Ffigur 3*

Edrychir ar hyn yn ôl llwybr samplu rhwng 11 Ionawr a 17 Ionawr 2021:

| **Lleoliad** | **Nifer y profion** | **24 awr** | **48 awr** | **72 awr** |
|---|---|---|---|---|
| Labordy GIG Cymru - Cymuned - Profion eraill | 5,547 | 57% | 96% | 99% |
| Labordy GIG Cymru - Cymuned; Sgrinio gweithiwr allweddol asymptomatig a sgrinio preswylwyr | 15,111 | 11% | 66% | 92% |
| Labordy GIG Cymru - Ysbyty | 10,561 | 70% | 97% | 100% |
| Labordy GIG Cymru - Arall | 858 | 35% | 77% | 93% |
| Cyfanswm | **32,077** | **50%** | **88%** | **97%** |

## 5.5 Labordai nad ydynt yn rhai GIG Cymru

### *5.5.1 Gweithgaredd PCR*

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y profion a awdurdodwyd mewn labordai nad ydynt yn rhai GIG Cymru rhwng 11 Ionawr a 17 Ionawr 2021.

| **Safle samplu** | **Cyfanswm wythnosol** |
|---|---|
| Labordy nad yw'n labordy GIG Cymru - Y gymuned | 36359 |
| Labordy nad yw'n labordy GIG Cymru - Yn y cartref | 8621 |
| Labordy nad yw'n labordy GIG Cymru - Porth Sefydliadol | 24566 |
| **Cyfanswm** | **69546** |


Mae gostyngiad mewn profion cymunedol sydd wedi'u hawdurdodi mewn labordai nad ydynt yn rhai GIG Cymru o oddeutu 45,000 (wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021) i 36,000 (wythnos yn dechrau 11 Ionawr 2021)

Mae nifer y profion sy'n gysylltiedig â'r Porth Sefydliadol yn weddol sefydlog.

### *5.5.2 Amseroedd Prosesu: O'r Adeg Casglu i'r Awdurdodiad Cyntaf*


Dim ond pan fo'r stampiau amser a dyddiad ar gyfer casglu sbesimenau ac awdurdodiad cyntaf yn bresennol yn y data y gellir cyfrifo amseroedd o'r adeg casglu i awdurdodiad (dechrau-i'r-diwedd), felly mae'r data hyn yn seiliedig ar 98% o'r profion.

Dengys Ffigur 4 yr amser canolrifol o'r adeg y cesglir y sbesimen (h.y. pan fydd yr unigolyn yn cael ei swabio) i'r adeg y caiff y canlyniad ei awdurdodi mewn labordy nad yw'n labrody GIG Cymru.




*Ffigur 4*

Dangosir yr amser prosesu cyffredinol hyd yma ar gyfer canlyniadau profion nad ydynt yn cael eu cynnal mewn labordai GIG Cymru (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel Labordai Goleudy) yn seiliedig ar bob prawf (ers i'r profion ddechrau) dros amser yn Ffigur 5 ac yn ôl mecanwaith atgyfeirio yn y tabl isod.




*Ffigur 5*

Edrychir ar hyn yn ôl llwybr samplu rhwng 11 Ionawr a 17 Ionawr:

| Lleoliad | Nifer y profion | 24 awr | 48 awr | 72 awr |
|---|---|---|---|---|
| Labordy nad yw'n labordy GIG Cymru - Y gymuned | 36,359 | 87% | 98% | 100% |
| Labordy nad yw'n labordy GIG Cymru - Yn y cartref | 8,621 | 6% | 58% | 93% |
| Labordy nad yw'n labordy GIG Cymru - Porth Sefydliadol | 24,566 | 2% | 75% | 95% |
| Cyfanswm | **69,546** | **47%** | **85%** | **97%** |

Mae cyfran y profion cymunedol a awdurdodwyd o fewn 24 awr wedi mwy na dyblu ers yr wythnos diwethaf i 87%, a dyna'n bennaf y rheswm dros welliant yng nghyfran gyffredinol y profion a awdurdodwyd o fewn 24 awr o'u casglu (cynnydd o 24% i 47% ar gyfer yr wythnos yn dechrau 4 Ionawr 2021)

## 5.6 Profion gwrthgyrff

Oherwydd bod nifer y canlyniadau profion gwrthgyrff sy'n cael eu prosesu o fewn GIG Cymru wedi gostwng yn sylweddol ar ddiwedd 2020, fe wnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cyfathrebu canlyniadau gwrthgyrff ar 23 Rhagfyr 2020.

## 5.7 Dyfeisiau Llif Unffordd

Defnyddir Dyfeisiau Llif Unffordd (LFDs) fel arfer i gadarnhau presenoldeb neu absenoldeb dadansoddyn targed, fel pathogenau neu fiomarcwyr mewn pobl neu anifeiliaid, neu halogion mewn cyflenwadau dŵr, bwydydd neu borthiant anifeiliaid. Y math mwyaf cyffredin o stribed prawf cyflym llif unffordd yw'r prawf beichiogrwydd.

Mae'r dechnoleg yn caniatáu profi y tu allan i'r labordy, a gellir cael y canlyniad ymhen llai na 30 munud.

Mae mwy na 100 o Ddyfeisiau Llif Unffordd wedi'u datblygu ar gyfer canfod antigenau COVID-19 neu wrthgyrff COVID-19.

### 5.7.1 Profion canfod COVID-19

Mae'r prawf RT-PCR a ddefnyddir ar gyfer profi am COVID-19 mewn labordai yn profi am bresenoldeb asid riboniwcleig (RNA) feirysol. Erbyn hyn, ceir dealltwriaeth dda o ddeinameg RNA feirysol, gan gynnwys y ffaith y gellir canfod RNA gweddilliol am wythnosau yn dilyn yr haint cychwynnol.

Mae'r prawf LFD ar gyfer presenoldeb antigen SARS-CoV-2. Deunydd protein o'r feirws yw hwn. Nid yw dynameg antigen feirysol mor gyfarwydd, er ei bod yn debygol y bydd antigen yn cael ei glirio o'r corff yn gyflymach.

### 5.7.2 Perfformiad Dyfeisiau Llif Unffordd (LFDs)

O blith y 130 o LFDs COVID-19 a gafodd eu sgrinio i ddechrau, mae 40 wedi cael eu gwerthuso gan Grŵp Dilysu Technegol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr (DHSC).

Mae gan LFDs sensitifrwydd is na'r prawf RT-PCR, sy'n dibynnu ar y rheswm dros y prawf a'r amgylchiadau ar ei gyfer:

- Y sensitifrwydd cyffredinol ar gyfer LFD Innova yw 66.5%. Fodd bynnag, os yw'r prawf yn cael ei ddefnyddio i ganfod unigolion sydd â llwyth feirysol uchel (h.y. prawf ar gyfer unigolion sy'n debygol o fod yn fwy heintus) mae'r sensitifrwydd yn fwy na 90%.
- Pan gyflwynwyd prawf LFD Innova gan weithwyr proffesiynol labordy hyfforddedig, roedd y sensitifrwydd yn 79.2%, ond dim ond 57.5% ydoedd pan gynhaliwyd y profion gan unigolion hunanhyfforddedig.

Mae crynodeb o berfformiad LFD o'r holl wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu bod lefel y penodolrwydd yn uchel iawn (mwy na 99.6%), ac mae'r sensitifrwydd yn yr ystod 40-70% yn gyffredinol, a thros 90% ar gyfer canfod unigolion sydd â llwyth feirysol uchel.

### 5.7.3 Y Defnydd Presennol o LFDs

Defnyddiwyd dyfeisiau llif unffordd i brofi'r boblogaeth ar lefel dorfol ym Merthyr Tudful a Chynon Isaf. Ar hyn o bryd maent yn cael eu defnyddio ar gyfer tri phrif ddiben (fel rhan o gynlluniau peilot/braenaru DHSC):

- Profi staff yn rheolaidd (ddwywaith yr wythnos) yn y meysydd gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae potensial i hyn gael ei ymestyn i athrawon +/- holl staff ysgolion
- 'Profi Cyfresol' - profi cysylltiadau yn ddyddiol am 7 diwrnod, a chaniatáu iddynt barhau i fynd i'r gwaith/ysgol ar yr amod bod canlyniad eu prawf dyddiol yn negatif (yn lle gorfod ynysu am 10 diwrnod). Mae hyn yn cael ei dreialu/ei gyflwyno yn y mannau a ganlyn

- TATA Steel
- Heddlu De Cymru
- Ysgolion

- Profi i gefnogi ymweliadau diogel â chartrefi gofal

### *5.7.4 Cymeradwyaeth gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)*

Mae nifer o ddyfeisiau llif unffordd sydd wedi cael eu dilysu yn annibynnol neu wrthi'n cael eu dilysu o dan Raglen Brofi'r DU. Mae'r dyfeisiau llif unffordd hyn wedi'u hardystio â'r nod CE, ond gall rhai mathau o ddefnydd a ragwelir gan brofion cymunedol fod y tu hwnt i gyfarwyddiadau defnyddio'r gweithgynhyrchydd, er enghraifft hunan-swabio a defnydd asymptomatig. Mae deialog barhaus rhwng DHSC ac MHRA ynghylch y mathau hyn o ddefnydd er mwyn cael arweiniad a chymeradwyaeth.

## 6 Iechyd y Boblogaeth

Er y bydd ein ffocws yn parhau i fod ar sicrhau ymateb effeithiol i COVID-19, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i ystyried y goblygiadau iechyd ehangach i boblogaeth Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu deall yn llawn effeithiau ehangach (cadarnhaol a negyddol) COVID-19, gan gynnwys yr effeithiau ar grwpiau sy'n agored i niwed mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd a chanlyniadau penodol gweithredoedd i reoli trosglwyddiad.

Rydym wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael drwy ailystyried penderfyniadau cyllidebol mewnol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn. Defnyddiwyd model comisiynu yn bennaf i ganfod adnoddau ychwanegol, fel nad yw ein staff yn cael eu symud o'r ymateb diogelu iechyd.

Mae ein gwaith sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth yn cynnwys dangosfwrdd adfer ar gyfer COVID-19, ystod o asesiadau effaith ar iechyd gyda phwyslais penodol ar effaith COVID-19 ar gyflogaeth, iechyd meddwl a llesiant a grwpiau sy'n agored i niwed. Ymysg y meysydd sy'n cael y flaenoriaeth bennaf mae: canlyniadau diweithdra i iechyd; gwendidau yn y boblogaeth yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau a oedd yn bodoli eisoes a'r rhai a amlygwyd gan COVID-19 a chanlyniadau iechyd meddwl gyda ffocws cychwynnol penodol ar bobl iau. Mae angen i'r wybodaeth hon fod yn sail i ymdrechion traws-sector amlddisgyblaethol ar y cyd i atal niwed i iechyd yn y dyfodol, i gynorthwyo gydag adferiad ac i gyfrannu at welliant parhaus mewn iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Byddem yn fwy na pharod i drafod gyda'r Pwyllgor effaith arwyddocaol COVID-19 ar y ffactorau ehangach sy'n niweidio'r boblogaeth mewn sesiwn dystiolaeth yn y dyfodol os credir y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Mae ein harolygon ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cael eu cynnal bob pythefnos yn parhau ac felly hefyd ein cymariaethau rhyngwladol gyfyngiadau COVID-19. Mae'r gwaith hwn yn cael ei fwydo i unedau

cynghori technegol Llywodraeth Cymru gan ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth a gwybodaeth ehangach.

Ym mis Hydref 2020, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a gefnogwyd gan dîm Canolfan Gydweithredol WHO Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Memorandwm yn nodi cytundeb cyffredin o'r angen am fuddsoddiad mewn iechyd a llesiant, yr amodau hanfodol ar gyfer cyflawni'r lefel uchaf bosibl o iechyd, datblygu cynaliadwy a ffyniant i bawb yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys nodi a goresgyn yr heriau cyffredin sy'n wynebu cymdeithas cyn ac ar ôl effeithiau COVID-19. Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y byd. Mae ein cysylltiadau cryf â WHO yn golygu ein bod eisoes yn gweithio ar y cyd ag ef, a thrwyddo gyda gwledydd eraill, i ddeall y ffyrdd mwyaf effeithiol a theg ymlaen ar gyfer iechyd a llesiant yn dilyn y pandemig.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon